# Cyngor Sir Ynys Môn

## Cyfarfod Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned

## Nos Iau, 9 Gorffennaf 2015
## 7.00 yh

Siambr y Cyngor
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

## Rhaglen

**1. Cadarnhau cofnodion**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2015 (amgaeedig).

**2. Rhagolygon o ran y Gyllideb**

Diweddariad ar yr her gyllidol i'r Cyngor a'r broses y bwriedir ei dilyn er mwyn cwrdd â'r her honno.

**3. Lleisiau Lleol – Ymgysylltu**

Amlinelliad o'r prosiect Lleisiau Lleol.

**4. Cynrychiolaeth ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir**

Amlinelliad o'r broses arfaethedig ar gyfer penodi dau gynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned.

**5. Fforwm Sgriwtini**

5.1 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith 2014/15 (cylchredir y ddolen isod yn fisol i glercod cynghorau tref a chymuned):

http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/blaen-raglen-waith-y-pwyllgor-gwaith/

5.2 Blaen Raglenni Gwaith y ddau Bwyllgor Sgriwtini ar gyfer 2014/15 (amgaeedig).

5.3 Adroddiad Blynyddol Sgriwtini 2014/15 – prif negeseuon

# Cyngor Sir Ynys Môn

**6. Unrhyw Fater Arall**

6.1 Gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned

**7. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cofnodion y Fforwm Cyswllt ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned a gynhaliwyd ar ddydd Mercher, 21 Ionawr 2015 am 7pm

Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor Llangefni

| **Presennol** | **Yn Cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned** |
|---|---|
| Marilyn Hughes | Amlwch |
| Gwynn Jones | Amlwch |
| Stan Zalot | Biwmares |
| Gwen Evans Jones | Biwmares |
| Margaret Thomas | Llangefni |
| Janice M Davies | Llangefni |
| Terry Jones | Llangefni |
| Richard Barker | Porthaethwy |
| Meinir Davies | Porthaethwy |
| Delyth Owen | Llanfaelog |
| Richard Rowlands | Llanfaelog |
| Gareth Cemlyn Jones | Llanfairpwll |
| Derek Owen | Llanbadrig |
| Carly Evans-Thau | Llaneilian / Llanbadrig |
| Jack Abbott | Trearddur |
| Alan Benson | Trearddur |
| JE Lewis | Bodffordd, Llangefni |
| Eifion H Jones | Pentraeth |
| Alun Foulkes | Cwm Cadnant |
| Mairede Thomas | Cwm Cadnant |
| Margaret Price | Trewalchmai |
| Edna Jones | Trewalchmai |

**Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ynys Môn**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Ieuan Williams | Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn (Cadeirydd) |
| Y Cynghorydd Hywel Eifion Jones | Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid |
| Richard Parry Jones | Prif Weithredwr |
| Gwen Carrington | Cyfarwyddwr Cymuned |
| J Huw Jones | Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol:-**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd Victor Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd John Griffith | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Ymddiheuriadau:-**

| | |
|---|---|
| Gwenda Parry | Moelfre |
| Gwenda Owen | Y Fali |
| John Jukes | Llannerch-y-medd |
| Jack Jones | Llannerch-y-medd |
| Michael Davies | Porthaethwy |
| Geraint Parry | Llanddona |
| P. Brooke | Llanfair M.E. |
| P. Day | Llanfair M.E. |
| Elfed Jones | Llanbadrig |

## 1. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2014 yn gywir.

## 2. Cwrdd â'r Heriau – Cynigion Cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2015/16

Cyfeiriodd yr Arweinydd at gyfarfod diwethaf y Fforwm hwn ac at gefndir strategaeth effeithlonrwydd y Cyngor am y cyfnod 2014 – 2017.

Cafwyd crynodeb gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid o'r materion allweddol yn y ddogfen ymgynghorol a sefyllfa gyllidebol y Cyngor yn sgil y setliad gan Lywodraeth Cymru. Tynnwyd sylw at lefel yr arbedion yr oedd eu hangen i gwrdd â'r bwlch yn y gyllideb a chyfeiriodd at y rhestr o arbedion effeithlonrwydd arfaethedig a amlinellwyd yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 15 Rhagfyr 2014 dan wahanol benawdau.

Gofynnodd y Cadeirydd wedyn am sylwadau ynghylch cynnydd arfaethedig o 5% yn y Dreth Gyngor a'r rhestr o arbedion effeithlonrwydd. Mewn perthynas â'r Dreth Gyngor, nododd y Cadeirydd bod oddeutu un o bob tair aelwyd yn Ynys Môn yn derbyn rhywfaint o gymorth dan y trefniadau cyfredol.

### Sylwadau ar y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor

**Porthaethwy –** mae angen ystyried y goblygiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth yn seiliedig ar gynnydd o 5% a lefel y gwasanaethau a ddarperir.

**Llangefni –** angen esbonio i'r trethdalwyr pa wasanaethau sy'n cael eu diogelu os bydd cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor. Fodd bynnag, os am ddiogelu gwasanaethau hanfodol mae angen cynnydd o hyd at 5% yn y Dreth Gyngor i gwrdd â'r bwlch cyllido.

**Amlwch –** dylai'r cynnydd yn y Dreth Gyngor fod yn llai na 5% o gofio'r data GVA ar gyfer Ynys Môn.

**Llanbadrig –** cynnydd o 5% ychydig yn uchel ond yn cydnabod bod angen cynnydd o'r fath er mwyn cwrdd â'r bwlch cyllido.

**Biwmares -** cynnydd arfaethedig o 5% yn dderbyniol, ond angen i'r gwasanaethau fod yn fwy effeithlon a mynd ar ôl pob cyfle i ddenu cymaint o incwm â phosib.

**Trearddur –** dylai'r Cyngor anelu at gynnydd sy'n agosach i 4% na 5% i ostwng yr effaith ar aelwydydd.

**Pentraeth –** dylai'r Dreth Gyngor fod cyn ised â phosib.

**Llanfaelog –** yn cefnogi cynnydd sy'n agosach i 4% i ostwng yr effaith ar aelwydydd.

**Cwm Cadnant –** yn cefnogi cynnydd o gwmpas 4-4.5% i gydnabod y pwysau sydd ar wasanaethau.

### Sylwadau ar arbedion effeithlonrwydd penodol

**Cwm Cadnant** - Prosiect Gweithio'n Gallach - Angen rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r rhesymeg ar gyfer gwariant ychwanegol ar Bencadlys Cyngor. Ymatebodd yr Arweinydd trwy amlinellu'r cyd-destun a gwahanol elfennau'r prosiect, gan gynnwys moderneiddio arferion gweithio staff, buddsoddi mewn technoleg, yr angen i resymoli portffolio eiddo'r Cyngor yn Llangefni a chanoli staff yn y Pencadlys. Byddai derbyniadau cyfalaf a geir yn sgil gwerthu asedau yn cyfrannu at wrthbwyso'r costau.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y sgôp i gynhyrchu incwm o'r Dreth Gyngor mewn perthynas ag ail gartrefi ac eiddo gweigion. Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid y byddai angen i'r Cyngor roi sylw manwl i hyn cyn cyflwyno unrhyw newidiadau a allai gael eu gweithredu yn ystod 2016/17 ar y cynharaf.

**Llanfairpwll** - angen esbonio goblygiadau gostwng y cyllid sydd ar gael ar gyfer rheoli'r Ganolfan Wybodaeth i Dwristiaid, ynghyd â'r toriadau i'r cyllidebau gweithredol ar gyfer Prosiectau Ewropeaidd.

**Llanfaelog** - angen edrych yn ofalus ar oblygiadau'r cynigion yn gyffredinol i'r Gwasanaethau Plant/Pobl Ifanc. Faint o ymgynghori sydd wedi digwydd gyda'r cydranddeiliaid perthnasol?

**Llanbadrig** – sôn am lefelau staffio Wardeiniaid Traeth i'r dyfodol. Nododd yr Arweinydd nad oedd hyn yn rhan o'r ymgynghoriad, er bod y Cyngor yn ailfodelu'r gwasanaeth ar hyn o bryd.

**Trewalchmai** - mynegwyd pryderon ynghylch y cynigion yn y Gwasanaeth Addysg i ostwng cyllidebau penodol a goblygiadau hynny - dyslecsia, cyfraniad AAA a chynigion i gynyddu incwm trwy gyflwyno ffi am frecwast ar gyfer disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim. Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, cadarnhaodd yr Arweinydd bod rhagor o waith manwl yn cael ei wneud ar y cynnig hwn i asesu ei effeithiau llawn.

**Biwmares** - dylai'r Cyngor gyflwyno rhagor o gyfleon ailgylchu ar yr Ynys er mwyn denu mwy o incwm. Dylai hefyd adolygu cynigion i godi £25 am ddarparu biniau newydd yn lle rhai a gollwyd ac ati a hynny er mwyn gostwng achosion lle ceir gwared ar wastraff yn anghyfreithlon.

Cyfeiriwyd wedyn at dwristiaeth a'i phwysigrwydd i'r economi. Dylid gwneud mwy i annog darpariaeth o Ganolfannau Gwybodaeth i Dwristiaid e.e. ym Miwmares. Soniwyd am ganolfannau hamdden y Cyngor a bod angen i'r Cyngor ystyried ailfodelu'r ddarpariaeth gyfredol yn seiliedig ar y model Menter Gymdeithasol ym Miwmares. Ymatebodd yr Arweinydd trwy ddweud bod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i adolygu costau gweithredol ar draws y canolfannau hamdden.

**Amlwch** – newidiadau arfaethedig i arferion gweithio yn safleoedd Penhesgyn a Gwalchmai – mynegwyd pryder ynghylch y goblygiadau o ran mynediad i'r cyhoedd a chynnydd posib yn nifer yr achosion o waredu gwastraff yn anghyfreithlon.

**Cyngor Tref Llangefni** – angen eglurhad ar effaith cynyddu ffioedd a chodi am wasanaethau cludiant i bobl ifanc ôl-16 oed.

**Cwm Cadnant** – cyfeiriwyd at y cynnig i ostwng cyfraniad y Cyngor tuag at yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r goblygiadau posib o ran paratoi cynlluniau allweddol.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu sylwadau gan nodi y byddent yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 16 Chwefror fel rhan o'r fframwaith cyllidebol. Nododd y Cadeirydd y byddai rhagor o waith manwl yn cael ei wneud gan y Cyngor i adolygu cyllidebau a gwariant ar wasanaethau statudol ac anstatudol ar gyfer cyllideb 16/17.

**3. Adrefnu Llywodraeth Leol yng Nghymru**

Crynhodd y Cadeirydd sefyllfa'r Cyngor mewn perthynas â'r Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru a chyfeiriodd at faterion a drafodwyd mewn cyfarfod diweddar gyda'r Gweinidog ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus. Dygodd yr Arweinydd sylw at faterion penodol, gan

gynnwys nifer y Cynghorwyr, staffio, lefel y Dreth Gyngor a'r effaith ar yr economi leol. Roedd disgwyl cael rhagor o fanylion gan Lywodraeth Cymru gyda hyn.

**4. Ychwanegu Gwerth at Raglen Waith Pwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr. Cyfeiriodd y Pennaeth Dros Dro ar gyfer y Gwasanaethau Democrataidd at gefndir cynnal y cyfarfod ac awydd y Cyngor i gydranddeiliaid gyfrannu i waith y Pwyllgorau Sgriwtini. Er enghraifft, gallai Cynghorau Tref a Chymuned a chydranddeiliaid eraill roi tystiolaeth i gefnogi rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini pan fo eitemau o ddiddordeb cymunedol penodol wedi eu trefnu ar gyfer trafodaeth. Roedd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei chylchredeg yn fisol i Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned er mwyn eu hysbysu am faterion i'w trafod gan y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgorau Sgriwtini.

**5. UFA**

**Cau Cwrs Golff Llangefni**

Gofynnodd Cyngor Tref Llangefni am fanylion gan y Cyngor ynghylch cau'r Cwrs Golff yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 12 Ionawr 2015. Nododd yr Arweinydd y byddai'r adran berthnasol yn darparu'r wybodaeth ar gyfer y Cyngor Tref.

# Yr Her Ariannol 2016/17 - sut rydym yn cynllunio i'w gwrdd

# The Financial Challenge 2016/17 - how we plan to meet it

13.7.15

# Trosolwg / Overview

- Cyd-destun
- Strategaeth Effeithlonrwydd
- Cyllideb Cyfalaf & Refeniw & Adnabod y Gap
- Y Broses
- Gwaith i’r dyfodol & ymgysylltu pellach

- Context
- Efficiency Strategy
- Capital & Revenue Budget / Identified Funding Gap
- The Process
- Future work & consultation

# Cyd-destun / Context

- Llynedd roedd stori'r gyllideb yn **stori gymharol dda** – h.y.

  – Dim yn cau unman
  – Dim yn defnyddio'n cronfa wrth gefn
  – Arbedion o golli staff yn broses naturiol
  – Gwrando ar ein dinasyddion a dilyn eu cyfarwyddyd (e.e. lleihau Treth y Cyngor / MYM / Brecwast am Ddim)

  Strategaeth effeithlonrwydd wedi ei fabwysiadu i yrru'r cyfeiriad

- Hinsawdd economaidd <u>anodd iawn</u> i'r sector gyhoeddus

Last year's budget gave a relatively **good news story** – i.e.

– We didn't close anything
– No use of reserves to balance budget
– Natural wastage evident in decreasing staff numbers
– We listened to our citizens and acted on their advice (e.g. decreased Council Tax / MYM / Free Breakfasts)

Efficiency Strategy adopted to provide direction

<u>Difficult</u> economic climate for public sector

# Cyd-destun Cenedlaethol – Grym i Bobl leol / National context – Power to Local People

- Cymhelliant i gynghorau cymunedol 'cymwys'
  - Pwer cyffredinol o gymhwysedd
  - Corff cymunedol i bwrpas gwireddu hawliau cymunedol
  - Falle ddim yn gorfod capio'r 'precept' (eraill yn cael eu gorfodi)

- Incentives for 'competent' Community Councils
  - General power of competence
  - Community body for purpose of exercising community rights
  - May not be subject to capping of the precept (others will)

# Cyd-destun Cenedlaethol / National Context

- Cyfranogiad Cymunedol
  - Rhoi’r hawl i gorff cymunedol fod the rhan o ddyluniad a gwelliant gwasanaeth
- Trosglwyddiad Asedau
  - Rhoi’r hawl i gyrff cymunedol gychwyn trosglwyddiad ased o’r Cyngor gydag amser priodol i baratoi
- Perchnogaeth cymunedol
  - Rhoi’r hawl i wrthodiad cyntaf ddod gan gyrff cymunedol pan ddaw asedau o werth cymunedol i fyny am werthiant

- Community participation
  - Gives community bodies rights to be involved in service design and improvement
- Asset transfer
  - Gives community bodies rights to initiate asset transfer from Councils and time to prepare
- Community ownership
  - Gives community bodies rights of first refusal when assets of community value come up for sale and time to prepare

# Egwyddorion y Strategaeth Effeithlonrwydd
# Principles of Efficiency Strategy

1. Lleihau costau rheoli, democratiaeth, biwrocratiaeth
2. Sicrhau gwerth da am arian
3. Trawsnewid gwasanaethau y mae ymrwymiad cyfreithiol arnom i'w darparu
4. Gweithio gydag eraill lle gall hyn arbed arian neu gadw gwasanaeth yn gweithio
5. Cynyddu incwm i'r cyngor
6. Sicrhau y gorau o'n staff
7. Herio a ddylem barhau i gyllido gwasanaethau nad ydynt yn statudol

1. Reducing Management, Democracy & Bureaucracy
2. Ensuring Good Value for Money
3. Transforming Services which we are legally bound to deliver
4. Working collaboratively with others to maintain service levels / save £
5. Maximising Income Generation
6. Best out of our staff
7. Challenging the continuation of non-statutory services

# Cyfalaf / Capital

- Lleihad dros y blynyddoedd……..

- Rhaglen cyfalaf yn cael ei ariannu -
  - Grantiau Cyfalaf cyffredinol
  - Derbyneb cyfalaf
  - Benthyciad cynaliedig

- **Cyfanswm - £3,925m**

- Dyrannu yn seiliedig ar –
  - Blaenoriaethau
  - Risgiau
  - Cydymffurfiad a statud
  - Ariannu'r cynllun
  - Effaith ar gyllideb refeniw

- Decreased over recent years……..

- Capital Programme funded from –
  - General Capital Grants
  - Capital Receipts
  - Supported Borrowing

- **Total - £3,925m**

- Awarded based on –
  - Priorities
  - Risks
  - Compliance with statute
  - Funding of scheme
  - Impact on revenue budget


# Cyllideb Refeniw – Revenue Budget

- Cyllideb Refeniw - £124m
- Chwyddiant @ 1.25%
- Treth Cyngor @ 4.5% (?)
- Cynnydd o 4% costau staff
- Lleihad yng ngrant Llywodraeth Cymru o £4.1m
- **Canlyniad** – Angen adnabod a gwireddu **£5.2m** o arbedion ar gyfer 2016/17

- Revenue Budget - £124m
- Inflation assumed @ 1.25%
- Council Tax @ 4.5% (?)
- Increase of 4% in staff costs
- Grant Reduction by Welsh Government of £4.1m
- **Result** – Need identify and realise **£5.2 million** efficiencies for 2016/17

www.ynysmon.gov.uk
www.anglesey.gov.uk
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Y Broses
# The Process



# Cwestiynau & gwaith pellach / Questions & further work

| | |
|---|---|
| ▪ Statudol v Anstatudol (?) | Statutory v Non-statutory (?) |
| ▪ Allanoli v Mewnoli (?) | Externalise v Internalise (?) |
| ▪ Trawsnewid v Parhau (?) | Transform v Continue (?) |
| ▪ Lleihau’r ddarpariaeth (?) | Lessen the service (?) |
| ▪ Newid y rheolaeth (?) | Change the management (?) |
| ▪ Atal / Dileu’r ddarpariaeth (?) | Stop the provision (?) |
| ▪ **CYDWEITHIO** | **COLLABORATION** |

# I Gloi / Conclusion

- Rydym wedi cydnabod y cyd-destun – ANODD (**am fod yn fwy heriol)**!!
- Rydym wedi'ch argyhoeddi o'r her sydd i'r dyfodol ar hyn sydd gennym i'w wario
- *Gwaith pellach angen ei wneud par: arbedion*
- Byddwn angen ymgynghori (Tach – Rhagfyr 2015)
- Ymgynhoriad yn hanfodol – angen gwybod sylwadau'r trigolion cyn cynnig ein cyllideb terfynol
- Gwahoddiad – 19/11

- We've identified the context – DIFFICULT (**not going to get easier**)!!
- We've informed you of the financial challenge ahead and what's available to spend
- *Further work is needed re: efficiencies*
- We'll need to consult (Nov – Dec 2015)
- Consultation is key – need to be informed of residents views prior to proposing final budget
- Invitation – 19/11

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cadeirydd: Y Cynghorydd R Meirion Jones
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Gwilym O Jones

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o fis Mai, 2015 hyd at fis Mai, 2016. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini Dros Dro)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: agdce@ynysmon.gov.uk

[Fersiwn @ 29/06/15]

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad /Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar bob rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriadau**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd**<br>• **Rhaglen Waith - Adolygiad** | | | |
| **6 Gorffennaf 2015** | Enwebiad i'r Panel Rhiant Corfforaethol. | Enwebu un aelod i'r Panel sy'n sicrhau bod gwasanaethau i blant a phobl ifanc mewn gofal o safon uchel | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |
| | Trefniadau'r Awdurdod Lleol i Gefnogi Diogelu Plant – Swyddfa Archwilio Cymru | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Perfformiad Blynyddol - Drafft (Cynllun Gwella ) 2014/2015 | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Matrics Cyllideb Gyfalaf 2016/2017 | Monitro perfformiad | |
| | Monitro Perfformiad – Sgorfwrdd Corfforaethol CH4 2014/15:<br>• SCA/018b (Gofalwyr oedolion);<br>• LCL/004 (Deunyddiau llyfrgell a fenthyciwyd);<br>• LCS/002b (Ymweliadau i ganolfannau chwaraeon/hamdden). | Monitro perfformiad | |
| | | | |
| **14 Medi 2015** | Adroddiad Perfformiad Blynyddol ( Cynllun Gwella ) 2014/2015 | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |
| | Cerdyn Sgorio Corfforaethol CH1 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Refeniw CH1 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Cyfalaf CH1 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Cyllideb 2016-2017 – Cynllun Ymgynghori | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Moderneiddio Ysgolion – Ymgynghoriad Ffurfiol Ardal Rhosyr | Sgriwtini cyn penderfyniad | |

[Fersiwn @ 29/06/15]

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad /Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar bob rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriadau**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd**<br>• **Rhaglen Waith - Adolygiad** | | | |
| | | | |
| **16 Tachwedd 2015** | Opsiynau Cychwynnol Cyllideb 2016/2017 | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 / 3 yp |
| | Cerdyn Sgorio Corfforaethol CH2 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Refeniw CH2 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Cyfalaf CH2 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Rheoli Pobl:<br>A. <u>Montro Perfformiad – Sgorfwrdd Corfforaethol:</u><br>• Absenoldeb salwch – cyfartaledd diwrnodau/shifftiau gwaith a gollwyd;<br>• Canran y cyfweliadau RTW a gynhaliwyd;<br>• Canran y PDRs a gwblhawyd i amser.<br>B. <u>Panel Canlyniad Sgriwtini: Adolygiad Rheolaeth Absenoldeb Salwch</u> Adroddiad cynnydd. | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Blynyddol Perfformiad Llyfrgelloedd | Monitro perfformiad | |
| | | | |
| **11 Ionawr 2016** | Cyllideb (Ddrafft) y Pwyllgor Gwaith 2016/2017 | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 /<br>10yb - 4yp ( trwy'r dydd) |
| | | | |
| **1 Chwefror 2016**<br>**(N.B. Dyddiad arall i'w drefnu yn y man)** | Ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus ar Gyllideb 2016/2017 y Pwyllgor Gwaith | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad /Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar bob rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriadau**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd**<br>• **Rhaglen Waith - Adolygiad** | | | |
| | Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd [i'w gadarnhau] | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | | | |
| **14 Mawrth 2016 2015** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol CH3 2015/2016 | Monitro perfformiad | Ystafell Bwyllgor 1 / 3yp |
| | Adroddiad Monitro Refeniw CH3 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Cyfalaf CH3 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Cofrestr Risg Corfforaethol | Monitro perfformiad | |
| | | | |
| **11 Ebrill 2016** | Eitemau i'w cadarnhau | | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |
| | | | |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

SCRUTINY

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cadeirydd: Y Cynghorydd Derlwyn Hughes
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Alun Mummery

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio o fis Mai 2015 i fis Mai 2016. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad /Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar bob rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriadau**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r is-Gadeirydd**<br>• **Rhaglen Waith** | | | |
| **15 Medi 2015** | Enwebiad i'r Panel Rhiant Corfforaethol. | Enwebu un aelod i'r Panel sy'n sicrhau bod gwasanethau i blant a phobol ifanc mewn gofal o safon uchel | Ystafell Bwyllgor 1 / 3yp |
| | Polisi Gosod Cyffredin | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Proses Cwynion ( Adran Gwasanethau Cymdeithasol) | Monitro | |
| | Trefniadau Diogelu Oedolion Bregus | Monitro | |
| | | | |
| **Hydref 2015 (Dyddiad i'w drefnu)** | Trefniadau Casglu Sbwriel Wythnosol – Asesu opsiynau | Sgriwtini cyn penderfyniad | Siambr y Cyngor (Amser i'w drefnu) |
| | | | |
| **17 Tachwedd 2015** | Strategaeth Cefnogi Teleuodd | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 / 2 yp |
| | | | |
| **2 Chwefror 2016** | Adolygiad Gwasanaethau Ieuenctid | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 / 3yp |
| | Adolygiad Gwasanaethau Diwylliant | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | | | |
| **12 Ebrill 2016** | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymmunedol | Monitro | Ystafell Bwyllgor 1 / 3yp |
| | | | |

# Cyngor Sir Ynys Môn / *Isle of Anglesey County Council*

# Sgriwtini / *Scrutiny*

## 9 Gorffennaf / July 2015

# SGÔP Y CYFLWYNIAD / *SCOPE OF PRESENTATION*

- Swyddogaethau Allweddol Sgriwtini.
- Beth all Sgriwtini ei wneud?
- Adnabod pynciau.
- Gwaith sgriwtini 2014/15.
- Prif Negeseuon – Adroddiad Blynyddol Sgriwtini 2014-2015.
- Rhaglen Waith – Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Rhaglen Waith – Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

- *Scrutiny Key Functions.*
- *What can Scrutiny do?*
- *Identifying topics.*
- *2014/15 Scrutiny work.*
- *Key Messages – Scrutiny Annual Report 2014-2015.*
- *Work Programme – Corporate Scrutiny Committee*
- *Work Programme – Partnership and Regeneration Scrutiny Committee.*

# **SWYDDOGAETHAU ALLWEDDOL SGRIWTINI / *SCRUTINY KEY FUNCTIONS***

Y pum swyddogaeth allweddol ar gyfer Sgriwtini yn y Cyngor:-

- Dal y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif.
- Monitro Polisïau'r Cyngor a'r Gyllideb.
- Cynorthwyo gyda Datblygu Polisïau.
- Gyrru Gwelliant / Monitro Perfformiad.
- Edrych ar faterion o ddiddordeb cyhoeddus eang a gwaith cyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal.

*The five key functions for Scrutiny in the Council:-*

- *Holding the decision takers to account.*
- *Monitoring Council Policy and Budget.*
- *Assist with Policy Development.*
- *Driving Improvement / Performance Monitoring.*
- *Examine matters of wide public interest and work of other public bodies in the area.*

## BETH ALL SGRIWTINI EI WNEUD ? / *WHAT CAN SCRUTINY DO?*

Nid oes gan Sgriwtini rym i wneud penderfyniadau ond gall:

- Ddarparu her 'cyfaill beirniadol' i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau a llunio polisïau.
- Sicrhau bod llais a phryderon y cyhoedd yn cael ei glywed.
- Yn cael ei wneud gan Aelodau (nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith) sy'n arwain ac yn berchen ar y rôl Sgriwtini.
- Yrru gwelliannau mewn gwasanaethau.

*Scrutiny does not have decision making powers but can:*

- *Provide 'critical friend' challenge to executive policy makers and decision takers.*
- *Enable the voice and concerns of the public to be heard.*
- *Is carried out by Members (who are not on the Executive) who lead and own the Scrutiny role.*
- *Drive improvement in service.*

# ADNABOD PYNCIAU / *IDENTIFYING TOPICS*

Awgrymiadau gan Aelodau;
- Pryderon a godwyd gan y cyhoedd;
- Eitemau a gyfeiriwyd gan y Pwyllgor Gwaith;
- Materion brys/cyfleoedd/bygythiadau;
- Pryderon a godwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar yr Ynys;
- Pryderon a godwyd gan asiantaethau partneriaethol;
- Asesiadau strategol corfforaethol o risg a her;
- Eitemau gan y Prif Weithredwr / Uwch Swyddogion.

- *Member suggestions;*
- *Concerns raised by the public;*
- *Items referred from the Executive;*
- *Emergency issues/opportunities/ threats;*
- *Concerns raised by service users on the Island;*
- *Concerns raised by partnership agencies;*
- *Corporate strategic assessments of risk and challenge;*
- *Items from Chief Executive / Senior Officers.*

## GWAITH SGRIWTINI 2014- 2015 / *SCRUTINY WORK 2014 -2015*

- Mae Adroddiad Blynyddol Sgriwtini yn amlinellu gwaith y ddau Pwyllgor Sgriwtini rhwng Mai 2014 i May 2015.

- **Esiamplau o waith Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:**

➢ Perfformiad
➢ Monitro Cyllideb ac Adolygiad Arbedion Effeithlonrwydd.
➢ Adolygiad Cau'r Parc Sglefrio (Llangefni)
➢ Rheoli Absenoldeb
➢ Cwrs Golff Llangefni

- *The Scrutiny Annual Report encompasses the work of the two Scrutiny Committees from May 2014 to May 2015.*

- ***Examples of work of the Corporate Scrutiny Committees:***

➢ *Performance.*
➢ *Budget Monitoring and Review of Efficiency Savings.*
➢ *Review of the Closure of the Skate Park (Llangefni).*
➢ *Sickness Management.*
➢ *Llangefni Golf Course*

- **Esiamplau o waith Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio :**

- Ystyriaeth o ddyfodol Llys Llewelyn Aberffraw.
- Ystyriaeth o Canllawiau Cynllunio Atodol Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa .
- Ystyriaeth o'r Adroddiad Blynyddol Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.
- Ystyriaeth o'r Strategaeth Dai Leol ar Gyfer Ynys Môn 2014-2019

- ***Examples of work of the Partnership and Regeneration Scrutiny Committee :***

- *Consideration of future of Llys Llewelyn Aberffraw.*
- *Consideration of the New Nuclear Build at Wylfa Supplementary Planning guidance.*
- *Consideration of the Annual Report of the Community Safety Partnership.*
- *Consideration of the Local Housing Strategy for Anglesey 2014 /2019.*

# **Negeseuon Allweddol o'r Adroddiad Blynyddol Sgriwtini / *Key Messages from the Scrutiny Annual Report 2014-2015***

Y Negeseuon allweddol yw:

- Y dylai'r Pwyllgorau Sgriwtini ganolbwyntio ar faterion sy'n arwain at wella gwasanaethau a chyfrannu at ddatblygu polisi.
- Bod y Pwyllgorau Sgriwtini yn ceisio gwella ymgysylltu â phartneriaid, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

The Key messages are :

- That the  Scrutiny Committees should focus on matters that lead to service improvement and contribute to policy development.
- That the  Scrutiny Committees seek to improve engagement  with partners, stakeholders and the public.

- Y dylai'r Pwyllgorau Sgriwtini reoli ei llwyth gwaith drwy flaenoriaethu materion er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau a chapasiti cyfyngedig.

- Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fel “Pencampwr Sgriwtini” am y cyfnod Mai 2015 i Mai 2016 . Wedyn bydd rôl yr “Pencampwr Sgriwtini” yn newid bob yn ail blwyddyn rhwng dau Gadeirydd y Pwyllgorau Sgriwtini.

- That the scrutiny Committees should manage their workload by prioritising matters in order to make best use of limited resources and capacity.

- Appoint the Chair of the Corporate Scrutiny Committee a “Scrutiny Champion” for 2015-2016. Role to alternate between the two Scrutiny Chairs thereafter.

# Rhaglen Waith Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol / *Corporate Scrutiny Committee Work Programme*

- **14 Medi 2015 am 2yp yn YB1**
  - Materion Perfformiad ;
  - Monitro Cyllideb;
  - Cyllideb 2016-2017 – Cynllun Ymgynghori;
  - Moderneiddio Ysgolion – Ymgynhoriad ffurfiol Ardal Rhosyr.

- **16 Tachwedd 2015 am 3yp yn YB1**
  - Opsiynau Cychwynol Cyllideb 2016-2017;
  - Materion Perfformiad;
  - Monitro Cyllideb ;
  - Adroddiad Blynyddol Perfformiad Llyfrgelloedd.

- ***14 September 2015 at 2pm in CR1***
  - *Performance Issues;*
  - *Budget Monitoring;*
  - *Budget 2016-2017 – Consultation Plan;*
  - *School Modernisation – Rhosyr Area Formal Consultation.*

- ***16 November 2015 at 3pm in CR1***
  - *Initial Budget Options - 2016-2017;*
  - *Performance Issues ;*
  - *Budget Monitoring;*
  - *Libraries Annual Performance Report.*

- **11 Ionawr 2016 am 10yb to 4yp yn YB1**
- ➢ Cyllideb Ddrafft y Pwyllgor Gwaith 2016-2017.

- **1 Chwefror 2016 am 2yp yn YB1 (y dyddiad medru newid)**
- ➢ Ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus ar Gyllideb y Pwyllgor Gwaith 2016-2017;
- ➢ Adolygiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd.

- **14 Mawrth 2016 am 3yp yn YB1**
- ➢ Materion Perfformiad;
- ➢ Monitro Cyllideb;
- ➢ Cofrestr Risg Corfforaethol.

- **11 Ebrill 2016 am 2yp yn YB1**
- ➢ Eitemau i'w cadarnhau.

.

- ***11 January 2016 at 10am to 4pm in CR1***
- ➢ *Draft Executive Budget 2016-2017.*

- ***1 February 2016 at 2pm in CR1 (date may change)***
- ➢ *Response to public consultation on the Executive Budget 2016-2017;*
- ➢ *Review of Libraries Service.*

- ***14 March 2016 at 3pm in CR1***
- ➢ *Performance Issues;*
- ➢ *Budget Monitoring;*
- ➢ *Corporate Risk Register.*

- ***11 April 2016 at 2pm in CR1***
- ➢ *Items to be confirmed.*

# **Rhaglen Waith Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio / *Partnership and Regeneration Scrutiny Committee Work Programme***

- **15 Medi 2015 am 3yp yn YB1**
  - Polisi Gosod Cyffredin (Tai) ;
  - Trefniadau Diogelu- Oedolion Bregus ;
  - Adroddiad Blynyddol – "Gwrando ar Gwynion a Dysgu oddi Wrthynt".
- **Hydref 2015 ( Dyddiad I'w Gadarnhau)**
  - Trefniadau Casglu Sbwriel Wythnosol – Asesu Opsiynau
- **17 Tachwedd 2015 am 2yp yn YB1**
  - Strategaeth Cefnogi Teuluoedd.
- **2 Chwefror 2016 am 3 yp yn YB1**
  - Adolygiad Gwasanaethau Ieuenctid;
  - Adolygiad Gwasanaethau Diwylliant.
- **12 Ebrill 2016 am 3yp yn YB1**
  - Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.

- ***15 September 2015 at 3pm in CR1***
  - *Common Allocation Policy ( Housing)*
  - *Safeguarding Arrangements-Vulnerable Adults;*
  - *Annual Report – "Listening and Learning from Complaints" .*
- ***October 2015 (date to be allocated)***
  - *Weekly Waste Option Appraisal.*
- ***17 November 2015 at 2pm in CR1***
  - *Family Support Strategy.*
- ***2 February 2016 at 3pm in CR1***
  - *Youth Services Review;*
  - *Cultural Services Review.*
- ***12 April 2016 at 3pm in CR1***
  - *Annual Community Safety Partnership Report*

# UNED SGRIWTINI / SCRUTINY UNIT


- **Anwen Davies** (Rheolwr Sgriwtini Dros Dro /*Interim Scrutiny Manager*)

☎- 01248 752039

✉- AnwenDavies@ynysmon.gov.uk neu /or AnwenDavies@anglesey.gov.uk

- **Geraint Wyn Roberts** (Swyddog Sgriwtini / *Scrutiny Officer*)

☎- 01248 752039

✉- GeraintRoberts@ynysmon.gov.uk neu /or GeraintRoberts@anglesey.gov.uk

**Uned Sgriwtini/*Scrutiny Unit***

sgriwtini@ynysmon.gov.uk / scrutiny@anglesey.gov.uk

# UNED SGRIWTINI / *SCRUTINY UNIT*

**DIOLCH YN FAWR /**

***THANK YOU***